



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cartref Gofal Preswyl Brwynog

**Ffordd Madyn
Amlwch
LL68 9DL**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/09/2019

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Brwynog yn gartref gofal ar gyfer pobl dros 60 oed ac mae wedi'i gofrestru i ddarparu gofal personol i hyd at 29 o bobl, a gall saith ohonynt fod â diagnosis o ddementia ac un ohonynt ag anabledd dysgu. Darperir gwasanaeth gofal dydd a gofal seibiant hefyd. Roedd 27 o bobl yn byw yn y cartref ar ddiwrnod ein harolygiad. Rachel Williams yw'r unigolyn cyfrifol ac mae rheolwr y cartref wedi'i chofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn hapus ac yn cael gofal cyson o ansawdd da, a gaiff ei gynllunio a'i ddarparu yn unol ag anghenion unigol. Mae'r staff gofal yn garedig ac yn adnabod y bobl yn dda; maent yn cael eu cefnogi a'u harwain yn dda gan dîm rheoli sydd sy'n llywodraethu ac yn goruchwyllo ansawdd y gofal yn effeithiol. Mae'r amgylchedd yn gyfforddus, mewn cyflwr da ac yn cynnwys adnoddau priodol ar gyfer y bobl sy'n byw yno.

2. Gwelliannau

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf a gwblhawyd ers i'r gwasanaeth gael ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA).

3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion er mwyn gwella'r gwasanaeth ymhellach. Mae hyn yn cynnwys:

Trafod trefniadau diogelwch y cartref â'r darparwr.

1. Llesiant

Ein canfyddiadau

Gall y bobl wneud dewisiadau ym mhob un o'r pethau sy'n bwysig iddynt. Gwelsom eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch, a bod amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried. Mae gan y bobl gynlluniau personol manwl sy'n dogfennu anghenion a dewisiadau'r unigolion. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda, yn darparu gofal cyson ac yn garedig. Mae'r darparwyr wedi cyflwyno polisiau a gweithdrefnau sy'n allweddol ar gyfer hybu urddas mewn gofal. Mae'r tîm rheoli'n sicrhau bod y bobl yn cael dweud eu dweud a'u bod yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio eu gofal. Mae'r amgylchedd yn lân, yn olau ac yn briodol er mwyn galluogi'r bobl i gael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

Caiff y bobl gymorth i fod mor iach â phosibl; cânt gymorth a chynghor gan weithwyr proffesiynol perthnasol sy'n ymweld â'r gwasanaeth sy'n ymwneud â'r gwaith o gynllunio a monitro gofal unigol. Mae'r staff gofal yn gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod iechyd a llesiant y bobl yn cael eu cynnal. Mae'r staff gofal yn rhagweithiol wrth sicrhau bod y bobl yn cael y gofal cywir a chyson pan fydd ei angen arnynt. Ceir ardaloedd amrywiol yn y cartref sydd ar gael er mwyn i'r bobl gael cymorth, gofal a thriniaeth yn rheolaidd. Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl.

Caiff y bobl gymorth i fod mor ddiogel â phosibl. Mae'r staff gofal yn gyfarwydd ag anghenion unigol y bobl ac mae tystiolaeth bod risgiau unigol yn cael eu hasesu, bod cofnodion yn cael eu personoli, a bod newidiadau neu ddirywiad o ran iechyd yn cael eu hadolygu a'u monitro. Mae'r staff gofal a'r tîm rheoli'n sicrhau bod y bobl yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio ar gyfer eu hanghenion gofal, a gwelsom y staff gofal yn paratoi cyn ac ôl cyfarfod â nhw, wrth iddynt fonitro gofal. Caiff pob dogfennaeth ei llofnodi gan yr unigolyn ynghyd â'r staff gofal; roedd y dogfennau a welsom yn dangos bod mesurau'n cael eu cymryd i leihau'r risg i'r bobl, ac felly maent yn allweddol i iechyd a diogelwch y bobl. Mae'r amgylchedd yn cael ei ystyried ym mhob asesiad risg, boed yn y cartref neu'r tu allan. Caiff y risg o niwed ei lleihau gan fod y cartref wedi ystyried anghenion unigol ac agweddau ar yr amgylchedd, a allai beri risg.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd priodol. Mae'r cartref yn lân, yn olau ac mewn cyflwr da. Mae digonedd o le ar gael i'r bobl gymdeithasu a threulio amser mewn ardaloedd gwahanol. Mae digon o ystafelloedd yn y cartref lle y gall y staff gofal a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref roi sylw i'r bobl, a lle y gall y tîm rheoli fonitro ansawdd y gofal. Mae'r amgylchedd wedi'i osod mewn ffordd sy'n galluogi'r bobl i fod yn annibynnol. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd hygyrch sydd wedi'i addasu i leihau risgiau.

2. Gofal a Chymorth

Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn hyderus bod gan ddarparwyr y gwasanaeth gynllun cywir am y ffordd y dylid darparu eu gofal. Gwnaethom siarad â phum unigolyn a ddywedodd wrthym fod y staff gofal wedi ymgynghori â nhw cyn iddynt gael eu derbyn i'r cartref a bod proses barhaus ar waith i adolygu'r gofal ac roedd dogfennau i ddangos tystiolaeth o'r broses hon. Roedd y dogfennau gofal yn dangos bod gwybodaeth yn cael ei chasglu o amrywiaeth o ffynonellau gwahanol, gan gynnwys gweithiwr iechyd proffesiynol, meddyg teulu a'r awdurdod lleol. Gwelsom aelod o'r staff gofal yn paratoi dogfennaeth ar ôl iddynt adolygu anghenion gofal un person; dywedwyd wrthym mai'r aelod hwnnw o'r staff oedd ei weithiwr allweddol, hynny yw prif ofalwr yr unigolyn hwnnw. Gwnaethom adolygu pedwar cynllun personol a gwelsom fod y rhain wedi'u personoli yn unol ag anghenion unigol; roedd y rhain wedi'u hysgrifennu mewn ffordd a oedd yn adlewyrchu sut y byddai'r bobl wedi esbonio eu hanghenion eu hunain. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod dewisiadau, arferion, dymuniadau a chredoau crefyddol personol y bobl yn cael eu hystyried ym mhob cynllun. Dywedodd dau unigolyn wrthym fod y gwasanaeth wedi helpu i sicrhau bod modd iddynt fynd i'w mannau addoli. Gwelsom fod asesiadau risg unigol wedi'u llunio mewn perthynas ag anghenion ac ymddygiadau er mwyn lleihau'r risg i'r unigolyn. Gwelsom hefyd fod y staff gofal wedi darllen, llofnodi a dyddio'r asesiadau risg. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, ac maent yn hyderus bod gan ddarparwyr y gwasanaeth gynllun cywir a chyfredol am y ffordd y darperir eu gofal er mwyn diwallu eu hanghenion.

Mae amrywiaeth eang o wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill ar gael i'r bobl. Clywsom y staff gofal a'r rheolwr yn trafod ac yn trefnu amrywiaeth o apwyntiadau iechyd ar gyfer y bobl, ac roedd un ohonynt yn apwyntiad deintyddol. Gwnaethom gyfarfod â phedwar gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r bobl yn y gwasanaeth bob wythnos. Roedd y rhain yn cynnwys dwy nyrs ardal, cynorthwyydd gofal iechyd a meddyg teulu. Dywedodd y nyrs ardal wrthym fod y staff gofal yn "*very efficient in contacting them for health advice and in following their guidance*". Dywedodd y cynorthwyydd gofal iechyd wrthym ei fod yn ymweld â'r cartref bron pob dydd i fonitro gwaed ac iechyd y bobl. Dywedodd ei fod yn gweithio'n agos gyda'r cartref fel rhan o dîm iechyd amlddisgyblaethol; hynny yw, nifer o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'i gilydd er mwyn diwallu anghenion unigol y bobl. Dywedodd y meddyg teulu wrthym ei fod yn ymweld â'r gwasanaeth bob wythnos er mwyn darparu clinig 'mewnol'; dywedodd fod y rheolwr a'r staff yn effeithiol wrth atgyfeirio materion iechyd a'u bod yn adnabod y bobl yn dda, i'r graddau y byddant yn rhoi gwybod am eu hanghenion iechyd er mwyn atal dirywiad. Dywedodd "*Mae'r cartref yn anhygoel o dda!*". Gwelsom bobl yn aros i weld y meddyg teulu ac roedd hi'n amlwg eu bod yn adnabod ei gilydd yn dda. Gwelsom dystiolaeth wedi'i dogfennu lle roedd amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol wedi cofnodi gwybodaeth yn ystod eu hymweliadau. Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd amlddisgyblaethol am anghenion iechyd yr unigolion. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol

sy'n trafod ac yn cynllunio gofal unigol. Mae'r bobl yn cael cymorth gan y staff gofal i ddefnyddio amrywiaeth o wasanaethau gofal iechyd sy'n cael ei monitro, yn y cartref a thu allan, er mwyn cynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u llesiant yn barhaus.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r unigolion ac i atal unrhyw niwed. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant fel rhan o raglen hyfforddi barhaus y gwasanaeth; gwelsom dystiolaeth ardystiedig o hyn yn ffeiliau'r staff. Gwnaethom siarad â dau aelod o'r staff gofal a ddywedodd wrthym eu bod yn gwybod sut i godi pryder petaent yn poeni am lesiant unigolyn neu wedi canfod fod rhywun mewn perygl. Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau trosfwaol a oedd ar gael i'r staff, a gwelsom fod y rhain yn glir ac yn gryno i'w dilyn. Gwnaethom fwrw golwg dros ddwy ffeil gofal a oedd yn cynnwys ceisiadau "Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid" a gafodd eu cwblhau'n briodol er mwyn sicrhau bod y trefniadau diogelu unigol cywir ar waith i amddiffyn y bobl sy'n wynebu risg petaent / pan fyddant yn gadael y cartref. Gwelsom hefyd y ffeil ddiogelu a oedd yn cynnwys cofnodion o atgyfeiriadau diogelu a'r canlyniadau; dogfennau yw'r rhain a gaiff eu cwblhau gan unigolyn/unigolion a allai fod yn poeni am iechyd a diogelwch unigolyn neu bobl. Roedd y ffeil yn drefnus iawn ac yn dangos tystiolaeth bod y rheolwr yn monitro digwyddiadau diogelu'n effeithiol a'i bod wedi cymryd camau gweithredu priodol mewn ymateb i gyngor gan weithwyr iechyd proffesiynol; roedd hyfforddiant penodol wedi'i nodi ar gyfer pob aelod o'r staff gofal yn y meysydd a nodwyd, gan gynnwys iechyd y croen, ac roedd y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol wedi'u diwygio. Roedd y ffeiliau gofal a welsom yn dangos bod y staff yn cymryd camau i atal dirywiad croen a bod cymhorthion priodol ar gael er mwyn helpu i atal niwed pwyso. Mae'r staff gofal yn cymryd camau gweithredu priodol ac yn cyfathrebu'n effeithiol â'r bobl a gweithwyr proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn eu gofal yn cael eu diogelu.

3. Yr Amgylchedd

Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n lân ac yn olau ac wedi'i osod mewn ffordd sy'n galluogi'r staff gofal i ddiwallu anghenion unigol. Fodd bynnag, mae angen adolygu diogelwch mynedfa'r adeilad. Er bod arwyddion i ganu'r gloch cyn mynd i mewn i'r gwasanaeth, roedd modd i ni gael mynediad i'r adeilad heb oruchwyliaeth a heb i neb sylwi. Gwelsom fod teledu cylch cyfyng ar waith, ond nid oedd unrhyw beth i roi gwybod i'r staff pe byddai pobl yn cerdded i mewn i'r gwasanaeth. Gwnaethom archwilio'r rhan fwyaf o'r adeilad, gan gynnwys yr holl ystafelloedd ymolchi cymunedol, yr ystafell lieiniau/ golchi dillad, tair ardal fyw, yr ardal fwyta a sampl o'r ystafelloedd gwely; roedd y rhain yn lân ac yn drefnus iawn. Roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnwys eitemau personol y bobl gan gynnwys lluniau, dillad gwely ac addurniadau. Roedd y dodrefn ym mhob ystafell o ansawdd da ac roedd pob cwpwrdd dillad yn sownd wrth y waliau. Roedd yr ystafell fwyta wedi'i gosod mewn ffordd ddymunol er mwyn darparu profiad bwyta braf i'r bobl; roedd llieiniau byrddau, napcynau, halen a phupur a blodau ar y byrddau. Dyfarnwyd sgôr pum seren (sef y safon hylendid bwyd uchaf) i'r gwasanaeth mewn perthynas â hylendid bwyd a diogelwch. Roedd dogfennaeth yn dangos tystiolaeth bod gwiriadau iechyd a diogelwch yn cael eu cwblhau, gan gynnwys tymereddau'r oergell, y rhewgell a bwyd. Roedd y cofnodion cynnal a chadw yn dangos bod gwaith cynnal a chadw'n cael ei drefnu a'i gwblhau mewn modd amserol. Caiff gwiriadau eu cwblhau mewn perthynas â diogelwch tân, legionella, nwyddau trydanol a chyfarpar arbenigol, gan gynnwys teclynnau codi a gwelyau proffilio. Roedd Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u personoli i anghenion unigol, yn glir ac yn gryno, ac roedd yn hawdd cael gafael arnynt pe bai tân. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cartrefol, sydd mewn cyflwr da ac sy'n cynnwys cyfleusterau priodol i hyrwyddo cyflawni canlyniadau personol.

4. Arwain a Rheoli

Ein canfyddiadau

Mae gan ddarparwyr y gwasanaeth systemau ar waith er mwyn sicrhau gofal o ansawdd uchel. Gwnaethom siarad â thri unigolyn a ddywedodd wrthym eu bod yn rhan o'r broses o gynllunio eu gofal. Gwnaethom fwrw golwg dros bedair ffeil gofal a gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y gofal yn cael ei adolygu bob mis neu yn ôl yr angen. Gwelsom hefyd fod y bobl a'u teuluoedd yn cymryd rhan yn y broses o adolygu eu gofal ac roedd llofnod i ddangos hyn. Gwnaethom siarad â dau aelod o'r staff gofal a ddywedodd wrthym eu bod yn cael hyfforddiant yn rheolaidd a'u bod yn cael eu goruchwyllo unwaith bob yn ail fis; roedd eu cofnodion staff yn ategu hyn. Gwelsom dystiolaeth bod cofnodion y cyfarfodydd tîm yn cyfeirio at faterion a nodwyd yn y cofnodion goruchwyllo; roedd y rhain yn cynnwys dogfennaeth, gweithgareddau, cyfarfodydd trosglwyddo a'r defnydd o ffonau symudol yn ystod oriau gwaith. Gwelsom fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal bob mis a bod y camau gweithredu o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu dogfennu a'u dyrannu i unigolion ynghyd â dyddiad cwblhau. Mae'r tîm rheoli'n goruchwyllo'r gofal a ddarperir yn effeithiol ac yn cymryd camau gweithredu er mwyn gwneud gwelliannau mewn meysydd a nodwyd.

Mae darparwyr y gwasanaeth yn canolbwyntio ar urddas mewn gofal ac yn ei hyrwyddo. Gwelsom fod y bobl yn cael eu trin ag urddas drwy gydol y dydd, yn enwedig yn ystod amser cinio. Gwelsom fod y staff gofal yn darparu ar gyfer anghenion unigol y bobl wrth iddynt fwyta; gwelsom eu bod yn adnabod y bobl yn dda, a'u bod yn garedig ac yn amyneddgar tuag atynt. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym fod y cartref yn penodi gweithiwr gofal allweddol y bobl ar ôl gweld eu bod wedi meithrin cydberthynas dda â nhw a *"people choose their own key workers, and this works well"*. Gwelsom sawl cyfeiriad at y "model urddas mewn gofal" drwy'r ddogfennaeth gofal a welsom i gyd. Dywedodd y dirprwy reolwr wrthym mai menter oedd hon a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol a oedd yn seiliedig ar fodel chwe cham er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael gofal priodol yn unol â'u hanghenion unigol yn ddiweddarach mewn bywyd. Gwnaethom edrych ar y model "Urddas mewn Gofal" a gwelsom dystiolaeth yn y ffeiliau gofal bod y staff gofal a gweithwyr ieuchyd proffesiynol eraill yn cynnwys "urddas" fel agwedd ganolog ar y gofal a ddarperir. Gwelsom dystiolaeth yn y ffeiliau staff fod dau aelod o'r staff gofal wedi cofrestru i ddod yn "hyrwyddwyr urddas"; dywedwyd wrthym hefyd fod y staff yn cwblhau hyfforddiant penodol mewn perthynas ag "urddas mewn gofal", eu bod yn cael eu hasesu'n rheolaidd a'u bod yn cael gwobr urddas mewn gofal ar ôl cwblhau'r hyfforddiant. Mae'r darparwyr a'r tîm rheoli'n diwallu anghenion unigol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt mewn modd parchus.

Mae'r darparwyr yn hyrwyddo'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Gwnaethom siarad â phedwar unigolyn sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith. Gwelsom y staff yn siarad Cymraeg â'r bobl y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff gofal yn ddwyieithog a'r Gymraeg yn famiaith iddynt; dywedodd un aelod o'r staff wrthym eu bod yn anelu at sicrhau bod y bobl Gymraeg eu hiaith yn cael gofal gan staff Cymraeg eu hiaith; mae eu dogfennau gofal hefyd yn cael eu hysgrifennu yn Gymraeg yn unol â'u dewisiadau. Roedd adroddiad sicrhau ansawdd yr unigolyn cyfrifol yn dangos y gallai pob un o'r 26 o aelodau staff yn y gwasanaeth siarad Cymraeg. Gwelsom y polisi iaith Gymraeg

troswaol, a luniwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn. Roedd y ffeiliau gofal personol a welsom yn dangos bod dewisiadau iaith y bobl yn cael eu hystyried wrth gynllunio ac asesu eu gofal. Gwelsom arwyddion a phosteri dwyieithog ym mhob rhan o'r adeilad. Mae'r darparwyr gofal yn ystyried dewis unigol a'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg, ac yn sicrhau bod y bobl yn cael gofal yn eu dewis iaith.

Mae mesurau ar waith i sicrhau bod ansawdd y gofal yn cael ei fonitro a'i adolygu. Gwelsom dystiolaeth wedi'i dogfennu bod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob mis er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a chasglu adborth gan y bobl, eu teuluoedd a'u ffrindiau. Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd, a oedd yn dangos bod y rheolwyr, dan arweiniad y darparwr, hefyd yn cyfarfod bob mis er mwyn rhannu gwybodaeth a sicrhau cysondeb o ran gofal. Gwelsom yr adroddiad ansawdd a luniwyd gan yr unigolyn cyfrifol. Roedd yr adroddiad yn dangos ei bod yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn effeithlon ac yn cynnwys gwerthusiad o ganlyniadau'r bobl, sef annibyniaeth, adolygiad y gofal, dewis, cyfranogiad a chymdeithasu a bod yn rhan o'r gymuned.

Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd tîm y gwasanaeth, a oedd yn cyfeirio at yr unigolyn cyfrifol a chyfathrebu rhwng y rheolwr a'r staff gofal am ansawdd y gofal a ddarperir; roedd camau gweithredu wedi'u nodi ynghyd â dyddiadau arfaethedig a'r unigolion a benodwyd i'w cyflawni. Gwelsom dystiolaeth yn y cofnodion goruchwyllo bod y wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r staff gofal. Mae'r darparwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i sicrhau gwelliant, cysondeb a goruchwyliaeth effeithlon.

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Hwn yw'r arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gael ei gofrestru a'i gymeradwyo o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (RISCA).

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y canlynol;

Dylai'r gwasanaeth adolygu diogelwch mynedfa'r adeilad; er bod teledu cylch cyfyng ar gael, ac er bod cloch yn y fynedfa, mae angen trefniadau er mwyn atal tresmaswyr rhag cael mynediad i'r cartref, yn enwedig yr ystafelloedd gwely i fyny'r grisiau.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu. Gwnaethom ymweld â'r cartref yn ddirybudd rhwng 10:00am a 5:00pm.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol;

Gwnaethom ddefnyddio'r Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI). Mae'r adnodd hwn yn galluogi arolygwyr i arsylwi ar ofal a'i gofnodi ac yn ein helpu i ddeall profiadau'r bobl.

Gwnaethom siarad â phedwar person sy'n byw yn y cartref, tri aelod o staff gofal, y dirprwy reolwr, y rheolwr, a phedwar gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref; meddyg teulu, dwy nyrs ardal a gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion a chanolbwyntio ar bedair ffeil bersonol, ffeiliau pedwar aelod o'r staff gofal, yr adroddiad sicrhau ansawdd, y rhaglen hyfforddi, a pholisïau a gweithdrefnau.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

www.arolygiaethgofal.cymru

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal
Darparwr y Gwasanaeth	Cyngor Sir Ynys Môn
Rheolwr	Zoe Hughes
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	27
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Hwn oedd yr arolygiad cyntaf a gynhaliwyd o dan RISCA
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	11/09/2019
Iaith weithredol y gwasanaeth	Y ddwy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.
Gwybodaeth Ychwanegol:	

Dyddiad Cyhoeddi 12/11/2019